Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

## Cyngor /Rhybudd am Droseddau Bwyd: FSA-NFCU-A005-2025

**Dyddiad cyhoeddi'r rhybudd:** <mewnosod dyddiad y rhybudd>
**Dyddiad diweddaru'r rhybudd:** <dyddiad cyhoeddi gwreiddiol/dyddiad diweddaru>

# Amnewid cig gafr – Methiannau o ran rhywogaethu

**Amodau trin:** Swyddogol: Gellir rhannu'r wybodaeth.

## Sgôr RAG: Oren

**Testun y Rhybudd**

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gofyn i fusnesau fod yn wyliadwrus ynghylch cig gafr yn cael ei amnewid â rhywogaethau eraill.

Mae gwaith samplu Arolwg Gwyliadwriaeth Manwerthu'r ASB wedi nodi bod cig gafr sydd wedi'i amnewid â rhywogaethau eraill, defaid yn fwyaf cyffredin, yn cael ei werthu. Mae wedi effeithio ar amrywiaeth o gynhyrchion wedi'u rhewi ac wedi'u hoeri a brynir mewn busnesau bwyd bach ond hefyd ar farchnadoedd ar-lein a siopau ar-lein sy'n gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid.

Mae samplau anfoddhaol yn destun ymholiadau parhaus.

**Pam rydym yn cyflwyno'r rhybudd hwn?**

Mae canlyniadau samplu diweddar wedi dangos bod nifer o fusnesau bwyd yn gwerthu cig gafr, ond bod y cig yn dod o rywogaethau eraill mewn gwirionedd, defaid yn bennaf. Gallai hyn olygu bod amnewidiad twyllodrus ar waith.

Mae'r ASB yn ymwybodol bod rhai diwylliannau'n ffafrio disgrifio cig dafad fel "gafr". Fodd bynnag, nodir yn glir mewn cyfraith bwyd y dylai disgrifiadau a labeli cynnyrch ddisgrifio'n gywir beth yw'r cynnyrch, sef yn yr achos hwn, nodi gwir rywogaeth y cig sydd ar werth.

Mae Cyfraith Bwyd Gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau defnyddwyr gael eu diogelu, a rhaid sicrhau bod darpariaethau ar waith i alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus mewn perthynas â'r bwydydd maen nhw'n eu bwyta. Os yw unigolyn yn dymuno bwyta cig gafr, rhaid i'r cig fod o deulu'r afr.

Rydym yn rhannu'r wybodaeth hon drwy grwpiau'r diwydiant ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i annog gwaith gwyliadwriaeth ac i alluogi busnesau i ymateb yn briodol i'r risg bosib hon o dwyll bwyd.

**Camau gweithredu a argymhellir**

Os ydych chi'n prynu cig gafr neu gynhyrchion sy'n cynnwys cig gafr i'w gwerthu, byddwch yn ymwybodol o'r risg o amnewid ac ystyriwch y cyngor canlynol:

1. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio cyflenwyr ag enw da, sydd â systemau olrhain ar waith ar gyfer y cig gafr rydych chi'n ei brynu. Adolygwch gyflenwyr yn unol â'ch polisïau a'ch gweithdrefnau cymeradwyo cyflenwyr.

2. Byddwch yn ymwybodol o gynnyrch sy'n cael ei gyflenwi am bris is na'r disgwyl. Ystyriwch hefyd sut olwg sydd ar y cynnyrch, ac a yw'n gyson â'r rhywogaeth rydych chi'n ei phrynu. Os oes gennych unrhyw amheuon, gofynnwch i'ch cyflenwr am ddogfennau olrheinadwyedd.

3. Dylech sicrhau, yn unol â chyfraith bwyd, fod labeli neu arwyddion cynnyrch (ar gyfer bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw) yn nodi'n union beth yw'r cynnyrch, ac nad yw'n camarwain defnyddwyr .

4. Gwnewch yn siŵr bod gennych system olrhain ar waith i gofnodi o ble rydych chi'n prynu cig gafr ac unrhyw fusnesau rydych chi'n eu cyflenwi â'r cig hefyd.

5. Os oes gennych unrhyw bryderon y gallai cynnyrch fod wedi'i amnewid yn dwyllodrus, rhowch wybod i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd drwy'r gwasanaeth Trechu Troseddau Bwyd yn Gyfrinachol neu drwy radffôn ar 0800 028 1180. Ar gyfer ffonau symudol nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU neu alwadau o dramor, defnyddiwch 0207 276 8787.

**Cysylltu â ni**

**Os byddwch yn dod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r Rhybudd hwn am Drosedd Bwyd, a fyddech cystal â'i rhannu â ni drwy un o'r dulliau canlynol:**

**Gwefan –** ewch i food.gov.uk a chliciwch ar 'Rhoi gwybod' ar frig y dudalen

**Ffôn –** 08000 28 11 80

**E-bost –** foodcrime@food.gov.uk

Cliciwch neu tapiwch yma i nodi eich ateb

**Dyfynnwch rif y rhybudd mewn gohebiaeth, sef A005. Mae ein prosesau yn ein galluogi i drin gwybodaeth mewn ffordd gyfrinachol.**

# Canllaw i Rybuddion NFCU

**DIFFINIADAU O'R STATWS 'GOLEUADAU TRAFFIG'**

| | |
|---|---|
| COCH | **Argymhellir yn gryf: camau gweithredu** |
| OREN | **Argymhellir: camau gweithredu** |
| GWYRDD | **Argymhellir: ymwybyddiaeth** |

**Ffactorau a ystyrir gan yr NFCU wrth ddiffinio'r statws 'goleuadau traffig'**
Mae'r NFCU yn cytuno ar statws Goleuadau Traffig fesul achos. Defnyddir y cwestiynau isod i lywio penderfyniadau am y statws Goleuadau Traffig:

- Beth yw maint yr effaith (wedi'i chadarnhau neu'r potensial ar ei chyfer)?
- A oes ôl troed wedi'i gadarnhau yn y DU (mae hyn yn cynnwys cadwyni cyflenwi yn ogystal â busnesau yn y DU)?
- A oes potensial am effaith niweidiol sylweddol ar enw da a hyder diwydiant bwyd y DU?
- A oes unrhyw risgiau diogelwch bwyd cysylltiedig? Os felly, beth yw maint a natur y risgiau hyn? Sylwer: bydd timau eraill o fewn yr ASB yn arwain gweithgarwch gweithredol ar unrhyw ddigwyddiadau diogelwch bwyd.

Asesiad goddrychol yw hwn ac mae pwysoliad gwahanol wedi'i briodoli i'r ffactorau a ystyrir gan yr NFCU. Fel y cyfryw, gall un ffactor ddal mwy o bwysau neu fod yn yrrwr allweddol ar gyfer y statws goleuadau traffig a ddewisir ar gyfer rhybudd.

**Gwybodaeth i'r rhai sy'n derbyn y rhybudd hwn**

- Sicrhewch eich bod yn cadw at yr amodau trin a nodir yn y rhybudd.
- Swyddogaeth y rhybudd hwn yw sicrhau bod y diwydiant yn ymwybodol o risgiau troseddau bwyd posib ac yn gallu cymryd camau priodol.
- Ni fwriedir i'r rhybudd hwn gael ei rannu'n ehangach yn gyhoeddus, a gallai unrhyw wybodaeth a gaiff ei lledaenu heb awdurdod beryglu ymchwiliadau parhaus ac enw da diwydiant bwyd y DU.
- Mae'r rhybudd hwn hefyd wedi'i rannu ag awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.